Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd, Dduw hollalluog

Caneuon Ffydd: Rhif 42

Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd, Dduw hollalluog,
gyda gwawr y bore dyrchafwn fawl i ti;
sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd, cadarn a thrugarog,
Trindod fendigaid yw ein Harglwydd ni.

Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd; nef waredigion
fwriant eu coronau yn wylaidd wrth dy droed;
plygu mae seraffiaid mewn addoliad ffyddlon
o flaen eu Crëwr sydd yr un erioed.

Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd; cwmwl a'th gylchyna,
gweled dy ogoniant ni all anianol un;
unig sanctaidd ydwyt, dwyfol bur Jehofa,
perffaith mewn gallu, cariad wyt dy hun.

Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd, Dduw hollalluog,
datgan nef a daear eu mawl i'th enw di;
sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd, cadarn a thrugarog,
Trindod fendigaid yw ein Harglwydd ni.

REGINALD HEBER, 1783–1826
cyf. DYFED, 1850–1923

MYFYRDOD

Fel y mae cariad a chyfiawnder yn rhan o natur Duw, felly hefyd sancteiddrwydd. Y sancteiddrwydd hwn sydd yn rhan o gymeriad pur a pherffaith Duw ei hun, ac mae'n hemynydd yn mynegi hynny'n brydferth iawn yn ei drydydd pennill: 'unig sanctaidd ydwyt, dwyfol bur Jehofa, perffaith mewn gallu, cariad wyt dy hun.' Cyfansoddwyd yr emyn yn Saesneg gan Reginald Heber ac fe'i cyfieithwyd i'r Gymraeg gan Dyfed. Mae'n debyg y cyfansoddwyd yr emyn yn wreiddiol i'w ganu ar Sul y Drindod: 'Trindod fendigaid yw ein Harglwydd ni.' Ac mae'r Drindod honno i'w moliannu gan holl lu'r nef a chennym ninnau ar y ddaear.

Yn y pennill cyntaf y cawn y gosodiad sy'n gosod thema'r emyn, ac mae'n cael ei godi'n syth o eiriau Eseia: 'Sanct, Sanct, Sanct yw Arglwydd y Lluoedd' (Eseia 6:3). Mae gweld Duw yn ei sancteiddrwydd, a godre'i wisg yn llenwi'r deml, yn cael effaith fawr ar y proffwyd. '"Byddwch sanctaidd, oherwydd yr wyf fi yn sanctaidd"' (1 Pedr 1:16) yw'r gorchymyn y mae Pedr yn ein hatgoffa ohono yn ei lythyr, ac wrth i Eseia ei gael ei hun ym mhresenoldeb y sanctaidd Dduw, mae ef ei hun yn cael ei gyffwrdd ganddo ac yn gweld ei angen ei hun am gael ei sancteiddio. Ei ymateb yn adnod 5 yw: '"Gwae fi! Y mae wedi darfod amdanaf!"' Gwefusau aflan sydd ganddo ef, ac ymhlith pobl â gwefusau aflan y mae'n byw. Caiff ei buro a'i lanhau pan ddaw un o'r seraffiaid a chyffwrdd â'i enau gyda marworyn poeth mewn gefel. Wedi'r broses hon o gael ei sancteiddio ei hun, mae'n clywed Duw yn galw arno, ac mae yntau wedyn yn barod i ymateb i'r alwad honno, gan ei fod wedi ei baratoi, ei sancteiddio a'i gomisiynu i'r gwaith.

Mae sancteiddrwydd Duw yn ein cymell ninnau i sancteiddrwydd, felly. Efallai bod rhai ohonom yn meddwl mai peth henffasiwn ydy sôn am fod yn sanctaidd mewn oes fel hon sydd yn caniatáu popeth, ond ystyr y gair ydy rhywbeth sydd wedi ei osod ar wahân ar gyfer gwaith arbennig. Meddyliwn am y darlun hwnnw yn yr Hen Destament o'r llestri a fyddai'n cael eu sancteiddio ar gyfer eu defnyddio gan yr offeiriaid yn y deml, eu glanhau a'u gosod ar wahân ar gyfer defnydd sanctaidd Duw. Nid ein torri ein hunain i ffwrdd oddi wrth bopeth yr ydym yn ei fwynhau yw cael ein sancteiddio, ond yn hytrach ein torri a'n gollwng yn rhydd oddi wrth y pethau hynny sy'n niweidiol inni ac sy'n ein cyfyngu, gan ein galluogi i gyflawni ein potensial llawn yng Nghrist. Nid rhywbeth sy'n digwydd unwaith ac am byth ydy hyn chwaith, ond proses i'w dilyn wrth inni dorri'n rhydd oddi wrth hen batrymau a cheisio byw bywyd sanctaidd i'r Arglwydd.

GWEDDI

Dduw hollalluog, sancteiddier dy enw. Gad i mi gael fy nghymell gan dy sancteiddrwydd di dy hun, a helpa finnau i fod yn sanctaidd fel yr wyt ti'n sanctaidd. Dyro nerth dy Ysbryd Glân ar waith ynof er mwyn imi fod yn debycach i ti ac i dy Fab Iesu Grist, gan wybod bod gennyt ti waith i mi ei gyflawni hefyd fel Eseia, ac nad oes modd i mi ei gyflawni i'm llawn botensial heb i ti fy sancteiddio i er clod i'th enw. Amen.